

Dewiswch Addysg Gymraeg I'ch Plentyn

Beth yw addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu **addysg drochi lwyr** yn yr iaith Gymraeg. Anogir plant i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol y diwrnod ysgol a dysgir gwersi yn ddwyieithog. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn **dathlu bod yn amlieithog**, ac yn rhoi cyfle i blant dyfu i fyny gyda chymaint o sgiliau â phosibl.

Bydd plant sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd ganddynt cyfle i ddefnyddio'r ddwy iaith ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae **94%** o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd yn dod o **deuluoedd di-Gymraeg**.

Ar gyfer teuluoedd sydd ddim yn siarad Cymraeg, mae **ysgolion yn darparu popeth yn Gymraeg a Saesneg**. Mae ysgolion yng Nghasnewydd hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg.

A oes manteision o ran anfon fy mhlentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg?

Mae llwyth o fanteision o ran anfon plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r manteision hyn yn deillio o fod yn rhan o gymuned ysgol sy'n **dathlu dysgu ieithoedd**. Mae plant yn **ffynnu** drwy chwarae a dysgu yn y ddwy iaith.

Mae siarad dwy iaith wahanol o oedran ifanc yn helpu i **ddatblygu'r ymennydd**, sy'n helpu eu galluedd dysgu, **datrys problemau, eu cof** a sgiliau eraill yn nes ymlaen.

(Children with two languages excel at school, Rosemary Bennett, Education Editor, April 11 2017, The Times)

Mae siarad dwy iaith yn helpu plant i ddod yn gyfarwydd gydag **amrywiaeth** a gwahanol ddiwylliannau.

(What's Going on Inside the Brain of a Bilingual Child? Anya Kamenetz Nov 30, 2016)



Ysgolion Cymraeg Casnewydd

Yng Nghasnewydd, mae pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, pob un â meithrinfa ar y safle, ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae gan bob aelwyd **ddalgylch** ysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae gan Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli **Ganolfan Adnoddau Dysgu bwrpasol** i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae **uned drochi** ar gael mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, sy'n galluogi plant o ysgolion cyfrwng Saesneg i ddysgu Cymraeg ar lwybr carlam cyn dechrau eu haddysg cyfrwng Cymraeg.

Ysgolion Cynradd



Ysgol Gymraeg Bro Teynon

Brynglas Drive, Casnewydd, NP20 5QS



01633 850804



@broteyrnon



ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru



Ysgol Gymraeg Ifor Hael

Clos Meon, Betws, Casnewydd, NP20 7DU



01633 414694



@IforHael



ysgol.gymraegiforhael@ysgolioncasnewydd.cymru



Ysgol Gymraeg Casnewydd

Heol Fferm Hartridge, Casnewydd, NP18 2LN



01633 290270



@YsgolGCasnewydd



ysgol.gymraegcasnewydd@ysgolioncasnewydd.cymru



Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

Cilgant Capel, Casnewydd, NP20 2FT



01633 656687



@NantGwenlli



ysgol.gymraegnantgwenlli@ysgolioncasnewydd.cymru

Addysg Uwchradd



Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

Ffordd Dyffryn, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8BX



01633 851614



@TrydarGIC



gwent.iscoed@ysgolioncasnewydd.cymru



Am wybodaeth mewn ieithoedd cymunedol, sganiwch y cod QR.

